# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR (2)-07-06 (p.6)

### Dyddiad:Dydd Iau 4 Mai 2006
### Amser:9.30am tan 12.30pm
### Lleoliad:Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Pwnc y papur: Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Prawf

#### Diben

Darparu papur ar gynigion i ailstrwythuro'r gwasanaeth prawf i gyd-fynd â chyflwyniad ynglyn â hyn a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr newydd.

#### Crynodeb

Mae'r papur hwn yn amlinellu ymarfer ymgynghori'r Swyddfa Gartref ar y cynigion ailstrwythuro; ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r ddogfen crynodeb o ymatebion.

#### Cefndir

Ym mis Hydref 2005, lansiodd yr Ysgrifennydd Cartref y ddogfen ymgynghori 'Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Prawf i Leihau Ail-Droseddu' a oedd yn pennu cynigion Llywodraeth y DU i gyflwyno comisiynu ac elfen o gystadleuaeth i'r ddarpariaeth o wasanaethau prawf a'r canlyniadau sefydliadol a fydd yn deillio o hynny. Mae'r darpariaethau hyn yn gofyn am newid deddfwriaethol, ond bu'n rhaid eu gollwng o'r Ddeddf Heddlu a Chyfiawnder bresennol; bwriedir cyflwyno'r darpariaethau hyn o hyd yn ystod y sesiwn Seneddol bresennol.

Cynigiodd yr ymgynghoriad newidiadau sylfaenol i'r ffordd y caiff y gwasanaeth prawf ei ffurfweddu a sut y darperir gwasanaethau prawf. Yn allweddol i'r cynigion oedd y rhoddir y ddyletswydd i'r Ysgrifennydd Cartref wneud darpariaethau ar gyfer gwasanaethau prawf fel y gall, dros amser, gontractio gydag ystod o ddarparwyr gwahanol yn hytrach na pharhau o angenrheidrwydd i ariannu byrddau prawf lleol i ddarparu gwasanaethau. Awgrymwyd y byddai hyn yn gwella effeithiolrwydd a gwerth am arian trwy well defnydd o gystadleuaeth gan ddarparwyr preifat a gwirfoddol. Gosodir hyn yn erbyn y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr newydd a fydd yn golygu y caiff achos pob troseddwr ei reoli'n unigol o ddechrau eu dedfrydau tan eu diwedd, yn y ddalfa a'r tu allan fel iddi. Roedd prif gynigion yr ymgynghoriad yn cynnwys:

symud tuag at fyd lle bydd tendro ar gyfer holl wasanaethau rheoli troseddwyr, yn cynnwys ymyriadau a chadw yn y ddalfa yn beth arferol;

- symud y ddyletswydd gyfyngedig i ddarparu gwasanaethau prawf o fyrddau prawf i'r Ysgrifennydd Cartref a fyddai'n gwneud darpariaeth drwy wneud trefniadau gydag eraill i ddarparu'r gwasanaethau hynny;
- bydd y Rheolwr Troseddwyr Cenedlaethol dros Gymru a 9 Rheolwr Troseddwyr Rhanbarthol, yn gweithredu ar ran yr Ysgrifennydd Cartref, yn gallu contractio'n uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau carchardai a gwasanaethau prawf gydag ystod o ddarparwyr o'r sectorau preifat, dielw a chyhoeddus;
- diddymir y byrddau prawf presennol, a chaiff cyrff llai, sy'n canolbwyntio'n fwy ar fusnes, eu creu. Yn hytrach na chyflawni dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau prawf, byddant yn un o nifer o ddarparwyr posibl y gwasanaethau hynny o dan gontract i'r Ysgrifennydd Gwladol. I gychwyn, bydd y cyrff newydd hyn yn dal pob contract i sicrhau proses drosglwyddo ddidrafferth, ond bydd rhaglen raddol o brofion marchnad yn dilyn, a dim ond os ydynt yn cyfrannu at leihau ail-droseddu ac ennill busnes trwy hynny y bydd y cyrff hyn yn parhau i fodoli;
- cedwir cyd-derfynnedd â'r 42 o Fyrddau Cyfiawnder Troseddol;
- y goblygiadau ar gyfer ystod o ddyletswyddau statudol y byrddau prawf mewn perthynas â dioddefwyr; plant; partneriaethau diogelwch cymunedol; cydnabyddir Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) a Thimau Troseddau Ieuenctid (YOT).

Ymatebais yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Rhagfyr gan nodi ei fod yn hanfodol y cyflawnir yr ail-strwythuro a'r trosglwyddo i'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr mewn ffordd a gaiff effaith sylweddol ar gyfraddau ail-droseddu a'r nod ar y cyd o wella diogelwch cymunedol. Yn benodol, dywedais ei bod yn bwysig bod yr ail-strwythuro yn cyd-fynd yn dda â gwasanaeth yr heddlu pan gaiff ei ail-gyflunio. Gofynnais hefyd am sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu cyfrannu at y broses o wneud penodiadau i'r byrddau lleol newydd.

Amlygais y ffaith y byddai rhai o'r goblygiadau ar gyfer y ffordd y caiff gwasanaethau eu comisiynu a'u darparu yn heriol yng Nghymru, ac mewn ardaloedd penodol gallai cyflwyno elfen o gystadleuaeth fod yn broblem gan fod cyn lleied o ddarparwyr lleol. Pwysleisiais ein bod yn rhoi pwys mawr ar ddarpariaeth leol, felly byddai'n achosi pryder petai hyn yn gorfodi'r byrddau i wneud trefniadau gyda darparwyr gwasanaethau â gwybodaeth leol brin, neu ddim gwybodaeth leol.

Pwysleisiais y bydd yn bwysig sicrhau bod ymgynghori trwyadl pan fydd y trefniadau newydd yn gwrthdaro â swyddogaethau datganoledig, ac yr anogir cydberthnasau rhwng swyddogion a darparwyr gwasanaethau i sicrhau'r canlyniadau gorau. Ailadroddais yr holl bwyntiau hyn i Weinidog y Swyddfa Gartref y Farwnes Scotland yn ystod sgwrs ffôn ar 18 Ionawr. Cytunodd y Farwnes Scotland ar y pwyntiau a wnaed, a dywedodd ei bod yn awyddus i sicrhau y caiff buddiannau Cymru eu hystyried, yn cynnwys yr iaith Gymraeg. Cytunwyd y dylai swyddogion gadw mewn cysylltiad agos wrth i'r agenda hon ddatblygu.

Ysgrifennais at Gadeirydd y Pwyllgor ym mis Hydref i'w hysbysu ynglyn â'r ymarfer ymgynghori, ac awgrymais y gallai'r Pwyllgor wahodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru i drafod y cynigion. Trafodwyd hyn oll yn fy adroddiad i'r Pwyllgor ar 9 Chwefror. Yn dilyn trafodaeth, ymgymerais ag ymgynghori â'r Swyddfa Gartref ynglyn ag amseriad y ddeddfwriaeth arfaethedig. Cytunwyd hefyd y dylid trefnu cyflwyniad ar y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ar gyfer y Pwyllgor.

Pan gyfarfûm â'r Farwnes Scotland yng Nghaerdydd ar 9 Mawrth dywedodd ei bod yn gobeithio sicrhau amser seneddol ar gyfer y Mesur sy'n ymdrin ag ailstrwythuro ar ddiwedd y sesiwn Seneddol bresennol. Dywedodd na wnaed penderfyniadau ynglyn ag ymdrin â phenodiadau i'r cyrff lleol newydd. Ynglyn â'r mater o gyflwyno elfen o gystadleuaeth, nododd fy mhryderon, yn enwedig o ran y diffyg adnoddau yng Nghymru.

Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Ar 30 Mawrth cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ailstrwythuro'r gwasanaeth prawf.

Roeddwn i'n un o'r 748 o ymatebion. Derbyniwyd deg ymateb o Gymru, ar wahân i ymatebion gan bobl â buddiannau prawf, ac ar y cyfan roedd y rhain yn gwrthwynebu cyflwyno elfen o gystadleuaeth ac o blaid datganoli'r cyfrifoldeb am y gwasanaethau prawf i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd nifer yn ategu'r dadleuon a gyflwynwyd gan eraill yr erbyn cystadleuaeth, ac yn gwneud y pwynt nad yw cyflwyno elfen o gystadleuaeth yn cydweddu'n dda ag agenda bolisi'r Cynulliad o annog gwell dull o weithio mewn partneriaeth.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i bob ymgynghoriad ac yn darparu ymateb Llywodraeth y DU. Mae'n glir bod nifer o'r rhai a ymatebodd o fewn y gwasanaeth prawf yn gwrthwynebu newid ac yn ddig oherwydd yr ymhlygiad bod angen gwella eu perfformiad. Ymateb Llywodraeth y DU i hyn yw bod cyfraddau ail-droseddu yn parhau i fod yn annerbyniol o uchel.

Mae Llywodraeth y DU yn derbyn yr angen i sicrhau bod y strwythur newydd yn cyd-fynd yn dda â gwasanaeth ailgyfluniedig yr heddlu, ac arhosir am benderfyniad terfynol ynglyn â ffiniau heddluoedd cyn gwneud penderfyniad ar faint o ardaloedd prawf a ddylai fod yn gysylltiedig â hwy.

Hefyd derbyniwyd pryderon ynglyn â gormod o newid dros gyfnod cyfyngedig, a cheir tystiolaeth o hyn drwy gyflwyno elfen o gystadleuaeth yn raddol. Bydd rhaglen raddol o gystadleuaeth ar gyfer gwasanaethau carchardai a gwasanaethau prawf - gan ganolbwyntio, o ran y gwasanaeth prawf, ar ymyriadau yn y lle cyntaf - a chyhoeddir prosbectws ar gyfer hyn ym mis Mai 2006. Diweddarir y prosbectws yn flynyddol a bydd yn pennu bwriadau'r Llywodraeth ar gyfer comisiynu a chyflwyno elfen o gystadleuaeth dros y 5 mlynedd nesaf.

O ran y newid arfaethedig o fyrddau prawf i ymddiriedolaethau, mynegwyd safbwyntiau cadarnhaol a

negyddol. Mae'r ymateb yn ailadrodd y ffaith bod yr ymddiriedolaethau lleol newydd yn ganolog i'r ymagwedd newydd, ac yn ailadrodd y gwneir penderfyniadau terfynol ynglyn â'r ardaloedd prawf ar ôl ailstrwythuro'r heddlu. Un o brif bwyntiau diddordeb Llywodraeth Cynulliad Cymru yw p'un a fyddwn yn cael cyfrannu at y broses o wneud penodiadau i'r ymddiriedolaethau yng Nghymru, ond nid oes son am fanylion y broses honno.

Bwriedir cyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol i weithredu'r newidiadau hyn o hyd, cyn gynted ag y bydd amser Seneddol ar gael.

Mae'r camau nesaf, ar wahân i gynhyrchu'r Prosbectws ynglyn â Chyflwyno Elfen o Gystadleuaeth, a Phrosbectws Ystadau, ym mis Mai, yn cynnwys gwell cyfundrefn berfformiad ar gyfer y gwasanaeth prawf. Dros y 12 i 18 mis nesaf bydd hyn yn cynnwys asesu/archwilio perfformiad pob ardal gwasanaeth prawf yn fanwl. Dyfernir contract i'r sector cyhoeddus ddarparu gwasanaethau rheoli troseddwyr yn yr achos cyntaf yn yr ardaloedd hynny o safon dderbyniol. Lle bydd diffygion, rhoddir cymorth i wella perfformiad, ond os nad yw gwelliannau yn deillio o hyn, bydd y gwaith yn agored i gystadleuaeth. Cyflawnir ymyriadau yn gynyddol unwaith bydd yr ymddiriedolaethau newydd ar waith.

## Goblygiadau Ariannol

Nid oes goblygiadau ariannol. Nid yw cyfrifoldeb am y gwasanaeth prawf wedi'i ddatganoli, ac nid effeithir ar gyllidebau Llywodraeth Cynulliad Cymru gan yr ailstrwythuro arfaethedig.

Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

I nodi'r papur hwn.

**Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymunedol ac Adfywio**
**Pwynt cyswllt: Joanna Jordan, yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, estyniad 5456**